# GORCHYMYN CYDGRYNHOI SIR GAERFYRDDIN (AC EITHRIO CAERFYRDDIN, LLANELLI A RHYDAMAN) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 42) 2025

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3), 4(2), 32, 35 a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") (fel y'i diwygiwyd), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 42) 2025" a bydd yn dod i rym ar y XXX o XXX 2026.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

   a. Mae 'Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004' ("y Gorchymyn Cydgrynhoi"), fel y'i hamrywiwyd wedyn, trwy hyn yn cael ei amrywio ymhellach fel petai'r cynlluniau rhif cyfatebol sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn, sy'n dynodi Ardaloedd AA149, BQ143, BR143, BU213, BZ200, CC182, CD213, CD214, CF214, CN162, CN163, CT126, CU126, CY167, CZ163, DA164, DA165, DA173, DB173, DB174, DG155, DJ170, DJ171 a DR163, yn cael eu gosod yn lle'r cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn Cydgrynhoi.

   b. Mae:

      (i) Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) Ardal Barcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2011;

      (ii) Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 22) 2015; a

(iii) Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 41) 2014,

trwy hyn yn cael eu dirymu i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cyfyngiadau a ddisgrifir yn fyr yn Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir yn fwy penodol ar y cynlluniau sy'n dwyn y rhifau cyfeirnod unigryw a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlenni dywededig.

## ATODLEN 1

**DIRYMU LLECYN LLWYTHO**

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Pwll | Heol Pwll i Deras Bassett (ffordd yr A484) | CF214 |

## ATODLEN 2

**DIRYMU'R LLEOEDD PARCIO AM AMSER CYFYNGEDIG,**
**DYDD LLUN I DDYDD SADWRN RHWNG 12.00PM A 9.00PM,**
**HEB DDYCHWELYD O FEWN 30 MUNUD**

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Pen-y-groes | Heol Waterloo (ffordd y B4297) | DA164 a DA165 |

## ATODLEN 3

**DIRYMU AROS A PHARCIO,**
**DYDD LLUN I DDYDD SADWRN RHWNG 8.00AM A 6.00PM**

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Glanaman | Cyffordd Heol Cwmaman (ffordd yr A474) a Heol yr Orsaf | DR163 |

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )

ar y ddogfen hon ar )

y o 2026 )

Ger fy mron i,

........................................................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**